# Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

**2016 dccc 2**

## RHAN 6

GWEITHWYR GOFAL CYMDEITHASOL: ADDASRWYDD I YMARFER

## PENNOD 2

GWEITHDREFNAU RHAGARWEINIOL

*Adolygu*

### 131 Adolygu penderfyniadau gan GCC

(1) Rhaid i GCC adolygu penderfyniad y mae is-adran (2) yn gymwys iddo—

- (a) os yw'n meddwl y gall fod diffyg perthnasol ar y penderfyniad, neu
- (b) os yw'n meddwl y gall penderfyniad gwahanol fod wedi ei wneud ar sail gwybodaeth nad oedd ar gael pan wnaed y penderfyniad.

(2) Mae'r is-adran hon yn gymwys i'r penderfyniadau a ganlyn—

- (a) penderfyniad i beidio ag atgyfeirio mater i banel addasrwydd i ymarfer o dan adran 121 neu 126(2),
- (b) penderfyniad i beidio ag atgyfeirio mater ar gyfer ymchwiliad o dan adran 125,
- (c) penderfyniad i waredu achos ar ôl ymchwiliad o dan adran 126(3), a
- (d) penderfyniad i atgyfeirio achos ar gyfer cyfryngu o dan reoliadau o dan adran 130.

(3) Ni chaiff GCC adolygu penderfyniad ar ôl diwedd y cyfnod o 2 flynedd sy'n dechrau â'r dyddiad y gwnaed y penderfyniad oni bai bod GCC yn meddwl ei bod er budd y cyhoedd i wneud hynny.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, Adran 131. (See end of Document for details)*

(4) Pan fo GCC yn penderfynu adolygu penderfyniad, rhaid iddo roi hysbysiad i'r partïon a chanddynt fuddiant—
   (a) o'r penderfyniad i gynnal adolygiad, a
   (b) o'r rhesymau dros gynnal adolygiad.

(5) Yn yr adran hon, ystyr "partïon a chanddynt fuddiant" yw—
   (a) y person cofrestredig y gwnaed y penderfyniad sy'n cael ei adolygu mewn cysylltiad ag ef,
   (b) y person (os oes un) a wnaeth honiad y gwnaed y penderfyniad mewn cysylltiad ag ef, ac
   (c) unrhyw berson arall y mae GCC yn meddwl bod ganddo fuddiant yn y penderfyniad.

(6) Yn sgil adolygiad o dan yr adran hon, caiff GCC—
   (a) rhoi yn lle'r penderfyniad sy'n cael ei adolygu benderfyniad arall o fath a allai fod wedi ei wneud gan y penderfynwr gwreiddiol,
   (b) atgyfeirio'r mater ar gyfer ymchwiliad o dan adran 125, neu
   (c) dyfarnu bod y penderfyniad yn sefyll.

(7) Rhaid i GCC roi hysbysiad o ganlyniad yr adolygiad i'r partïon a chanddynt fuddiant.

(8) Rhaid i GCC drwy reolau wneud darpariaeth ynghylch y trefniadau ar gyfer cynnal adolygiad o dan yr adran hon.

(9) Caiff rheolau a wneir o dan is-adran (8), yn benodol, wneud darpariaeth ynghylch—
   (a) y weithdrefn sydd i'w dilyn wrth gynnal adolygiad (gan gynnwys darpariaeth i'r partïon a chanddynt fuddiant gyflwyno sylwadau i GCC);
   (b) cynnwys ac amseriad hysbysiadau sydd i'w rhoi o dan yr adran hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 131 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 188(1)**

**I2** A. 131 mewn grym ar 3.4.2017 gan O.S. 2017/309, **ergl. 2(e)** (ynghyd ag erglau. 3, 4, Atod.)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, Adran 131.